Hydref 1af 2021

Annwyl Riant / Warchodwr,

Parthed: Cyrraedd yr ysgol yn hwyr

Hoffwn atgoffa rhieni/gofalwyr am y pwysigrwydd i sicrhau bod pob plentyn yn mynychu'r ysgol yn brydlon.

Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, bydd disgyblion sy'n cyrraedd yn hwyr yn cael eu cofnodi fel naill ai:

- L – hwyr cyn i'r gofrestr cau – pan fydd eich plentyn ychydig funudau'n hwyr neu
- U – hwyr ar ôl i'r gofrestr cau – mae hyn yn cyfrif fel absenoldeb anawdurdodedig

Mae hyn er mwyn atgyfnerthu pwysigrwydd cofrestru a'r disgwyliad y bydd disgyblion yn cyrraedd yn brydlon. **Mae cyrraedd yr Ysgol yn hwyr nid yn unig yn tarfu ar addysg y rhai sy'n cyrraedd yn hwyr ond hefyd y disgyblion hynny sydd eisoes yn yr ysgol.**

Ar y cyd â'r Awdurdod Lleol, byddwn fel ysgol yn patrolio'r gatiau yn ystod y tymor yma. Bydd y Swyddog Cynhwysiant Addysg, ynghyd ag Aelod Staff, wrth y gatiau i drafod unrhyw faterion sy'n rhwystro teuluoedd rhag sicrhau fod eu plant yn cyrraedd yr ysgol mewn pryd.

Nod y patrolau gât yw gwella prydlondeb. Mae'r gyfraith yn datgan y dylai disgyblion fynychu ysgol yn rheolaidd ac mewn pryd

Hoffwn atgoffa rhieni yn garedig bod y diwrnod ysgol yn dechrau am 8.45yb a'n gobaith yw y bydd pob plentyn yn yr ysgol erbyn yr amser yma. Mae colli 20 munud o ysgol bob wythnos yn golygu colli dros 11 awr neu bron 3 diwrnod cyfan o ddysgu dros y flwyddyn academaidd.

Pennaeth – Mrs Jane Wyn - Headteacher
Teras Ffynnonbedr, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion. SA48 7BX
☎ (01570) 422214 / ✉ gweinyddu@bropedr.ceredigion.sch.uk

Mae bod ar amser yn:

- rhoi cychwyn da i ddiwrnod eich plentyn ac yn rhoi meddylfryd positif i'ch plentyn, fel y gall ef/hi wneud y mwyaf o'i dysgu/ei ddysgu;
- datblygu patrymau cadarnhaol am y dyfodol;
- arwain at bresenoldeb da;
- arwain at well cyrhaeddiad;
- arwain at ddeall bod ysgol yn bwysig a bod addysg yn werthfawr;
- helpu'ch plentyn i ddatblygu ymdeimlad o gyfrifoldeb personol a chyfrifoldeb tuag at eraill;
- helpu'ch plentyn i wneud ffrindiau a chadw ffrindiau;
- arwain at lwyddiant a hunan-hyder.

Diolch i chi am eich cydweithrediad i sicrhau bod eich plentyn yn cael y cyfle gorau posibl i elwa ar ei addysg/ei haddysg yn Ysgol Bro Pedr.

Yn ddiffuant,

Mrs Jane Wyn.

(Pennaeth)

Pennaeth – Mrs Jane Wyn - Headteacher
Teras Ffynnonbedr, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion. SA48 7BX
☎ (01570) 422214 / ✉ gweinyddu@bropedr.ceredigion.sch.uk

October 1st 2021

Dear Parent / Guardian,

Re: Late arrival at school

May I respectively remind parents/guardians of the importance of ensuring that each child attends school on time.

In line with Welsh Government guidance, pupils who do arrive late will be recorded as either:

- L -late before the register closes - when your child is a few minutes late; or
- U -late after the register closes - this counts as an unauthorised absence.

This is to re-inforce the importance of registration and the expectation that pupils arrive punctually. Arriving late to school not only disrupts the education of those arriving late but also those pupils who are already in school.

In conjunction with the Local Authority, the school will be conducting gate patrols during the term. The Education Inclusion Officer, alongside a member of school staff will be at the gate to discuss any issues that prevent families ensuring that their children arrive in school on time.

The aim of gate patrols is to improve punctuality. The law states that pupils should attend school both regularly and on time.

We respectively remind parents that the school day begins at 8.45am and our hope is that all children will be in school by this time. Missing 20 minutes every week of school adds up to over 11 hours or nearly 3 whole days of learning over the year.

Being on time:

- gets your child's day off to a good start and puts your child in a positive frame of mind, so that he/she can make the most of his/her learning;

Pennaeth – Mrs Jane Wyn - Headteacher
Teras Ffynnonbedr, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion. SA48 7BX
☎ (01570) 422214 / ✉ gweinyddu@bropedr.ceredigion.sch.uk

- sets positive patterns for the future;
- leads to good attendance;
- leads to better achievement;
- leads to understanding that school is important and education is valuable;
- helps your child develop a sense of responsibility for him/herself and towards others;
- helps your child make friends and keep friends;
- leads to success and self-confidence.

Thank you for your co-operation in ensuring that your child has the best possible chance in benefiting from his/her education in Ysgol Bro Pedr.

Yours Faithfully,

Mrs Jane Wyn.

(Headteacher)

Pennaeth – Mrs Jane Wyn - Headteacher
Teras Ffynnonbedr, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion. SA48 7BX
☎ (01570) 422214 / ✉ gweinyddu@bropedr.ceredigion.sch.uk